GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG

CANLLAWIAU AC AMODAU

**TALIADAU I AWDURON – ARIAN A**

## A CANLLAWIAU

### 1 AMCANION A CHEFNDIR

Amcan y cynllun yw galluogi cyhoeddwyr i gynnig grantiau, prynu amser, comisiynau a thaliadau eraill i awduron llyfrau Cymraeg sy'n debyg o dderbyn grant cyhoeddi.

### 2 CYMHWYSTER

***Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?***

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr sy'n gymwys i dderbyn grantiau cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru.

Ym mhob achos, y cyhoeddwr fydd yn gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau, nid yr awdur. Os oes gan awdur ddiddordeb yn y cynllun, dylai gysylltu â chyhoeddwr.

***Pa awduron a llyfrau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?***

- Mae'r grantiau ar gael ar gyfer amrywiaeth eang o lyfrau i blant ac oedolion. Rhoddir y grantiau ar gyfer llyfrau sy'n addas i geisio am grant cyhoeddi gan y Cyngor Llyfrau yn unig.
- Gellir defnyddio arian Cynllun A i gynnig comisiynau o £4,000 hyd at £12,000 am weithiau gwreiddiol yn bennaf. Ni ellir rhoi comisiwn A ar gyfer cyfieithiad. Dylai cyhoeddwyr sy'n dymuno gwneud cais am arian cyfieithu droi at ganllawiau Grant B Awdur.
- Mae pwyslais y cynllun ar lyfrau i oedolion a llyfrau hwy i blant hŷn a phobl ifanc.
- Os yw awdur wedi derbyn ysgoloriaeth o ffynhonnell arall, ni all gael comisiwn A gan y Cyngor Llyfrau am yr un darn o waith.
- Wrth ddyfarnu grantiau bydd yr Is-bwyllgor yn ystyried os oes perygl o ariannu dwbwl. Gweler Atodiad 1 am restr o ystyriaethau a goblygiadau posibl.
- Mae'r Cyngor Llyfrau am annog datblygu awduron newydd, yn ogystal â chefnogi awduron profiadol. Fodd bynnag, bernir, gan amlaf, mai arian Cynllun B sydd fwyaf addas ar gyfer awduron newydd.
- Gyda rhai llyfrau bydd angen cydweithio, e.e. rhwng arbenigwr ar bwnc ac ysgrifennwr. Mewn sefyllfa felly gellir rhannu'r comisiwn/ffi rhwng y ddau awdur fel ei gilydd.
- Ni chefnogir unigolion i ysgrifennu hunangofiannau gydag arian Cynllun A ac eithrio lle mae'r gwrthrych yn cael cymorth cyd-awdur. Mewn achos felly, mae modd i wrthrych y llyfr dderbyn hyd at £4,000 o'r gronfa hon.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

- Ni ellir rhoi comisiwn A i awdur ysgrifennu llyfr am bobl sy'n fyw os nad yw'r bobl hynny yn dymuno i'r awdur ysgrifennu'r llyfr nac yn fodlon cydweithio â'r awdur ar y gwaith.

## 3 Y GRANT

- Cynigir grantiau o rhwng £4,000 a £12,000 tuag at brynu amser, comisiynu a chynnig taliadau eraill i awduron.
- Mae'r pwyslais o fewn Cynllun A yn bennaf ar gomisiynu deunydd gwreiddiol ar gyfer marchnad eang, yn ffuglen ac yn ddeunydd ffeithiol.
- Dyfernir pob un o'r grantiau gan Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi'r Cyngor trwy broses ymgeisio gystadleuol.

### Cynllun A (Llenyddol)

- Mae cronfa fechan o fewn i Gynllun A (Awduron) ar gyfer llyfrau ffeithiol, beirniadol neu ddeongliadol sydd angen ymchwil sylweddol, na fyddent, o angenrheidrwydd mor boblogaidd.
- Cynigir hyd at £6,000 at brynu amser awduron.
- Ni fydd y gronfa yn ystyried ceisiadau ar gyfer ailysgrifennu traethodau ymchwil.
- Ni roddir grant os oes ffynhonnell arall ar gael ar gyfer yr awdur, e.e. mae darlithwyr prifysgol yn gallu cael tymhorau sabothol a.y.yb. ar gyfer ysgrifennu.

### Cyffredinol

- Bydd y taliadau hyn yn ychwanegol at daliadau breindal arferol.
- Nid yw derbyn y grant comisiwn yn rhwystro awdur rhag derbyn unrhyw wobr a allai ddeillio o gyhoeddi'r gwaith terfynol. Fodd bynnag, os yw awdur yn bwriadu cystadlu dylai barchu amodau unrhyw gystadleuaeth ac, os yw hynny'n ofynnol, peidio â derbyn unrhyw arweiniad golygyddol.
- Dylai cyhoeddwr drafod â phob awdur er mwyn cael gwybod os oes ceisiadau eraill ar y gweill ar eu cyfer. Mae'n bosibl i awdur weithio ar fwy nag un llyfr a noddir ar yr un pryd, ond ni all cyfanswm yr holl daliadau awdur o fewn un flwyddyn fod yn fwy na £15,000.

## 4 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Prif flaenoriaeth Cynllun A yw galluogi comisiynu deunydd sydd wedi'i anelu at farchnad eang, yn bennaf:

- nofelau oedolion ac oedolion ifanc, lle gobeithir cynnal a datblygu nifer ac amrywiaeth y cynnyrch.
- hunangofiannau poblogaidd wedi'u cyd-awduro yn enwedig rhai sy'n cynnig amrywiad ar y ffurf gronolegol draddodiadol, gan roi ystyriaeth yn benodol i hunangofiannau gan ferched yn ogystal â dynion o gefndiroedd ethnig amrywiol.
- llyfrau poblogaidd sy'n gynrychioliadol o ran amrywiaeth cymdeithas a chydag ystyriaeth wedi ei roi i leisio profiadau bywyd awduron du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill gyda'r priodoleddau a amddiffynnir yn neddf Cydraddoldeb 2010.
- deunydd ffeithiol poblogaidd
- rhai 'llyfrau anrheg' uchelgeisiol o ran cynhyrchu a diwyg



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain, bydd y Cyngor yn fodlon ystyried mathau eraill o ddeunydd a all fod yn boblogaidd.

Cloriennir ceisiadau hefyd yn ôl y meini prawf canlynol:

- record yr awdur o ran safon ei (g)waith, cadw at amserlen, gwerthiant llyfrau blaenorol, ceisiadau A Awdur blaenorol;
- hyd y llyfr;
- faint o amser y mae'r awdur yn bwriadu ei dreulio ar y gwaith;
- safon cynhyrchu'r cyhoeddwr;
- pa mor fuan y bwriedir gorffen y gwaith.

## 5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Rhaid ymgeisio ar y ffurflen gais, sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Rhaid cyflwyno disgrifiad o'r hyn a fwriedir, ynghyd â braslun 1-3 tt. o'r gwaith a'r rhesymau dros ei gomisiynu, gan nodi hefyd sut y bydd y llyfr yn cwrdd â'r meini prawf uchod a phwy yw'r farchnad arfaethedig. Disgwylir sampl byr (tua 10 tt., dyweder) o'r gwaith arfaethedig hefyd.
- Dylid trafod amserlen y gwaith arfaethedig yn ofalus gyda'r awdur, a chynnig amserlen realistig yn y cais. Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall y sefyllfa newid erbyn y bydd y cais yn cael ei drafod, a'i dderbyn neu'i wrthod, felly yn achos ceisiadau llwyddiannus rhoddir cyfle i gynnig amserlen ddiwygiedig yn y cytundeb. Mae'n bwysig fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gadw at yr amserlen honno. [Noder Pwynt 6 isod ynglŷn â goblygiadau methu cadw at yr amserlen.]
- Ystyrir ceisiadau A yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor sy'n trafod ceisiadau yn benodol. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd. Hysbysir y cyhoeddwyr o'r union ddyddiadau ymlaen llaw a rhoddir gwybodaeth ar y we yn ogystal. (Mewn achosion eithriadol gellir ystyried ceisiadau rhwng cyfarfodydd a'u cadarnhau yn y cyfarfod ffurfiol canlynol.)
- Oherwydd yr amrywiaeth yn amserlen cyhoeddi'r gwahanol gyfrolau, bydd y gyllideb sydd ar gael yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod.

Os cynigir grant, gwneir hynny yn unol ag amodau cyffredinol, yn ogystal ag unrhyw amodau arbennig a bennir yn achos cais unigol. **Disgwylir i bob ymgeisydd ymrwymo i'w derbyn wrth gyflwyno cais.**

**Bydd cystadlu brwd am y grantiau hyn: y mae'n bwysig, felly, bod pob ymgeisydd yn dadlau ei achos yn y dull llawnaf posibl.**

## 6 TALU'R GRANTIAU

Bydd y Cyngor yn rhyddhau'r arian i'r cyhoeddwr fesul cam, a dylai'r awduron dderbyn eu harian hwy yn yr un modd. Bydd angen cytundeb comisiynu rhwng y cyhoeddwr a'r awdur cyn dechrau rhyddhau'r arian.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

- **Taliad 1**: ar ôl derbyn ffurflen hawlio gan y cyhoeddwr, ynghyd â chopi o'r cytundeb comisiynu wedi'i arwyddo gan y ddwy ochr, a hwnnw'n nodi'r amserlen ysgrifennu a thalu a'r telerau.
- **Taliad 2**: ar ôl derbyn ffurflen hawlio gan y cyhoeddwr yn tystio iddo dderbyn hanner y gwaith a'i fod yn fodlon arno.
- **Taliad 3**:
  ***naill ai*** ar ôl derbyn ffurflen hawlio gan y cyhoeddwr yn cadarnhau iddo dderbyn y gwaith cyflawn a'i fod o safon derbyniol i'w gyhoeddi
  ***neu*** ar gyhoeddi'r llyfr (eto, ynghyd â ffurflen hawlio).

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu £500 oddi ar y taliad olaf i awdur os yw'n cyflwyno gwaith cyflawn mwy na chwe mis ar ôl y dyddiad yn y cytundeb.

Os metha awdur a gorffen y gwaith ar ôl derbyn Taliad 1 neu Taliad 2 dylai'r cyhoeddwr drafod gyda'r Cyngor sut i ad-dalu'r grant a dderbyniwyd.

## 7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n gofyn am ffigurau gwerthiant ar gyfer pob llyfr a gefnogir gan y Grant Cyhoeddi.

Cymerir hyn i ystyriaeth wrth gloriannu ceisiadau pellach gan yr un awdur.

## B AMODAU CYFFREDINOL

1 Cynigir y grant ar sail y wybodaeth yn y cais, ac mewn unrhyw ohebiaeth atodol. Ceidw Cyngor Llyfrau Cymru'r hawl i ailystyried y grant mewn achosion lle nad yw'r gwaith a ysgrifennir yn cyfateb i'r manylion a roddir ar y ffurflen gais.

2 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol a nodir yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol.

Dylid cynnwys y gydnabyddiaeth a ganlyn ym mhob llyfr y dyfarnwyd grant iddo**: "Mae'r cyhoeddwr yn cydnabod cymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru".** Gellir hefyd ddefnyddio logo swyddogol y Cyngor sydd ar gael drwy ofyn i staff dylunio'r Cyngor. Os na chydnabyddir y Cyngor yn y modd priodol, ceidw'r hawl i atal hyd at 10% o'r grant.

Fel amod grant mae'n ofynnol i ddeiliad hawliau sydd wedi bod yn derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru sicrhau bod pob cytundeb ar gyfer cyfieithiad neu addasiad o'i lyfr yn cynnwys cymal sy'n nodi bod y geiriad uchod wedi'i gynnwys yn gydnabyddiaeth o'r buddsoddiad oedd ynghlwm â chreu a chynhyrchu'r llyfr gwreiddiol. Mae hyn yn berthnasol boed yr hawliau cyfieithu gan yr awdur neu'r cyhoeddwr, ac os yw'r llyfr hwnnw'n cael ei gyhoeddi gan y cyhoeddwr gwreiddiol neu os yw'r hawliau'n cael eu gwerthu i gyhoeddwr arall.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

3 Os na chyflenwir y dibenion y cynigiwyd y grant ar eu cyfer, neu ddim mewn da bryd, neu os na chydymffurfir â'r amodau perthnasol, gall Cyngor Llyfrau Cymru (drwy'r cyhoeddwr) fynnu bod y derbynnydd yn dychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant allai fod wedi cael ei dalu.

4 Lle y comisiynir gwaith, dylai'r awdur dderbyn cytundeb comisiynu, yn cynnwys telerau ac amserlen ar gyfer y gwaith a'r taliadau. Rhaid-cyflwyno copi wedi'i arwyddo o'r cytundeb cyn y gellir hawlio'r taliad grant cyntaf.

5 Mae'r holl daliadau awdur yn ychwanegol at y taliadau breindal a nodir yn y cytundeb cyhoeddi rhwng y cyhoeddwr a'r awdur.

6 Ni all yr un awdur dderbyn cyfanswm o fwy na £15,000 mewn un flwyddyn ariannol o'r gronfa awduron (Arian A a B).

7 Dylai'r awdur dderbyn unrhyw daliad awdur a hawliwyd oddi wrth y Cyngor Llyfrau o dan y cynllun o fewn mis i'r taliad gyrraedd y cyhoeddwr.

8 Fel arfer mae'n rhaid sicrhau o leiaf chwe mis rhwng cyhoeddi llyfrau tebyg gan yr un awdur. Os yw'r awdur yn cyhoeddi'n fuan gyda chyhoeddwr arall, dylid ymgynghori â'r Adran Datblygu Cyhoeddi i gael eglurdeb ar hyn.

9 Oni bydd cyfrol yn cael ei chyhoeddi oherwydd **marwolaeth** yr awdur, rhoddir gwybod i'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi, a gofynnir i'r aelodau benderfynu a ddylai'r grant gael ei ad-dalu ai peidio.

10 Os bydd awdur yn methu â chyflawni'r gwaith am ba bynnag reswm (yn cynnwys salwch tymor hir, amgylchiadau personol a gofynion eraill), bydd y grant yn dod i ben ar ôl pum mlynedd a disgwylir i'r cyhoeddwr gyflwyno cais arall os yw'n dymuno cael grant newydd ar gyfer y gyfrol. Gall Cyngor Llyfrau Cymru fynnu bod y derbynnydd yn dychwelyd (drwy'r cyhoeddwr) y cyfan neu ran o unrhyw grant allai fod wedi cael ei dalu a/neu gellir trosglwyddo'r taliadau hynny i gyfrol/cyfrolau eraill o eiddo'r un cyhoeddwr.

11 Oni chyhoeddir cyfrol oherwydd amgylchiadau'r awdur, bydd gan y cyd-awdur a/neu'r golygydd hawl i gael eu talu am y gwaith y maent wedi'i gwblhau, os yw'n berthnasol.

12 Oni bydd cyfrol yn cael ei chyhoeddi oherwydd bod **cais am grant cyhoeddi unigol wedi'i wrthod** gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi, a bod yr awdur eisoes wedi derbyn grant A/B Awdur, gofynnir i aelodau'r Is-bwyllgor benderfynu a ddylai'r grant gael ei ad-dalu ai peidio.

13 Os bydd awdur yn dymuno **newid cyhoeddwr** am ba bynnag reswm, disgwylir i'r cyhoeddwr gwreiddiol roi gwybod am hynny i'r Adran Datblygu Cyhoeddi. Gall y cyhoeddwr drosglwyddo'r grant A Awdur i'r cyhoeddwr newydd gyda'r awdur, ond disgwylir i'r cyhoeddwr newydd lunio cytundeb fydd yn amlinellu'r amserlen gyhoeddi, ac



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

anfon copi o'r cytundeb i'r Adran Datblygu Cyhoeddi. Os na fydd cyhoeddwr newydd yn fodlon derbyn y comisiwn, bydd disgwyl i'r awdur ad-dalu'r arian i'r Cyngor Llyfrau. Dylai'r cytundeb rhwng y cyhoeddwr a'r awdur ddarparu ar gyfer hyn.

14 Disgwylir i lyfr a anelir at ddysgwyr sy'n derbyn grant gan y Cyngor gydymffurfio â safonau iaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Felly, rhaid i'r llyfrau fynd trwy Dîm Golygyddol CLLC i'w golygu i'r safonau hynny, yn ogystal â'u prawf ddarllen. O fynd trwy'r broses hon bydd y llyfr yn gallu dwyn brand cyfres Amdani a chael ei hyrwyddo trwy rwydwaith y Ganolfan. Dylai'r cyhoeddwr ymgynghori â Thîm Dylunio CLLC er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn cydymffurfio â'r gyfres.

15 Disgwylir i bob llyfr gwreiddiol sy'n derbyn grant gan y Cyngor gael ei gyhoeddi fel e-lyfr yn ogystal, a'i osod ar ffolio.cymru ar yr un pryd a'r cyhoeddiad papur neu o fewn chwe mis, fan bellaf.



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

## Atodiad 1

Wrth ddyfarnu arian o dan gynlluniau Arian A ac Arian B bydd yr Is-bwyllgor a'r Cyngor Llyfrau yn ystyried y cwestiynau canlynol:

- A yw'r awdur wedi derbyn cyflog amser llawn er mwyn gweithio ar y deunydd sy'n cael ei gyhoeddi?
- A gafodd unrhyw fath o gydnabyddiaeth ariannol, megis cyfnod o absenoldeb sabothol â thâl, ariannu grant (o ffynhonnell heblaw'r Cyngor Llyfrau), ysgoloriaeth, bwrsariaeth neu wobr ariannol ei dyfarnu er mwyn gweithio ar y deunydd a baratowyd ar gyfer y prosiect cyhoeddi?
- A oes ffynhonnell o ariannu megis y rhai a restrir uchod ar gael ar gyfer y gwaith arfaethedig?
- A oes cysylltiad rhwng y gwaith sydd i'w gyhoeddi â'r swydd a ddelir gan yr awdur?
- Os yw'r awdur yn cael ei gyflogi gan brifysgol, a fydd y cyhoeddiad arfaethedig yn cael ei gyflwyno ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)?
- A yw'r gwaith wedi'i gwblhau y tu allan i oriau gwaith neu yn ychwanegol i'r cyfrifoldebau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â swydd?
- Oni bai bod ariannu'n cael ei ddyfarnu a fyddai'r gwaith yn debygol o gael ei gyhoeddi?
- A yw'r cais yn cyflwyno achos digonol cryf am yr angen i ariannu?

Os bydd yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi o'r farn bod y gwaith wedi cael ei ariannu, neu y dylid ei ariannu o ffynhonnell ar wahân i'r Cyngor Llyfrau byddant yn ystyried y dewisiadau canlynol:

- Darparu ariannu ar gyfer dim mwy na 50% o'r uchafswm a ganiateir gan y cynllun.
- Mewn achosion lle nad yw'r Is-bwyllgor wedi'i argyhoeddi bod angen digonol wedi'i amlygu a bod y gwaith wedi derbyn arian sylweddol o ffynhonnell arall yna gellir gwrthod y cais am ariannu.

**Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:**

**Dr Lynne Williams**
**Adran Datblygu Cyhoeddi**
**Cyngor Llyfrau Cymru**
**Castell Brychan**
**Aberystwyth**
**Ceredigion, SY23 2JB**
**Ffôn: 01970 629554**
**E-bost: grantiau.cymraeg@llyfrau.cymru**

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /
AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE



Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government